# Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Henfynyw ar y 13eg o Fehefin 2017 yn Neuadd Goffa Llwyncelyn am 7.30 yh

**Presennol:** Cynghorwyr Carys Morgan (Cadeirydd), Ruby Williams, Jocelyn Andrew, Garym Roberts, Eiddwen Merritt, Wyn Jones a Wyn Evans.

**Hefyd yn bresennol:** Y Clerc.

**Ymddiheuriadau:** Cynghorwyr Gerallt Davies a Barry Owen.

**Datgelu buddiannau:** Yn cael eu parchu.

**Cofnodion:** Darllenwyd cofnodion Mis Mai a'u cafwyd yn gywir.

**Codi o'r cofnodion:**

Penderfynwyd benodi Is-Gadeirydd a phaswyd yn unfrydol i benodi y Cynghorydd Garym Roberts, a derbyniodd y swydd.

**Materion Cynllunio**

Rhif Cais: A170472.
Clwyd Ddu, Ciliau Aeron, Llanbedr-pont-Steffan.
Adnewyddu mewnol ac allanol.
Dim gwrthwynebiad.

**Gwasanaeth Tân ac Achub**

Derbyniwyd lythyr oddiwrth Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn dweud fel y maent wedi arbed o'i cyllideb ers 2006 ac hefyd cynnig arolwg i'w lenwi.

**Hedfan y faner goch i'r Morwyr**

Darllenwyd lythyr yn gofyn i ni hedfan baner y morwyr mewn lle amlwg yn ein cymuned ond yn anffodus nid oes gennym bolyn yn ein ardal.

**Cyngor Sir Ceredigion – Wythnos Gofalwyr**

Cawsom ein hysbysu am Wythnos Gofalwyr ac hefyd am ddiwrnod 'Ddigwyddiad am Ddim' yng Ngwesty'r Plu, Aberaeron ar y 16eg o Fehefin o 11.00yb i 4.00yp ble fydd sgyrsiau, gweithgareddau, cyngor a chymorth i ofalwyr.

**Taliadau**
Yswiriant AON - £426.20.
T.A.W. – Ad-daliad o £109.75.
**Unrhyw Fater Arall**
Soniodd y Cynghorydd Jocelyn Andrew fod arwydd 'Derwen Gam' wedi ei ddwyn eto a chadarnhaodd y clerc ei bod wedi ysgrifennu at yr Adran Briffyrdd am y mater.
Awgrymodd y Cynghorydd Ruby Williams am noson o gasglu sbwriel a phaswyd i'r clerc wneud trefniadau gyda'r Adran Briffyrdd.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.40.

Mae'r cyfarfod nesaf ar y 11fed o Orffennaf.